

Polisi Iaith Gymraeg NOCN

1. Cwmpas

Amcan Grŵp NOCN yw hyrwyddo neu hwyluso'r defnydd o'r iaith Gymraeg, neu weithio tuag at sicrhau bod yr iaith Gymraeg yn cael ei thrin yr un mor ffafriol â'r iaith Saesneg. Mae NOCN yn cydnabod bod gan yr iaith Gymraeg statws swyddogol yng Nghymru a dylid ei thrin yr un mor ffafriol â'r iaith Saesneg. Rydym yn gwbl gefnogol y dylai pobl yng Nghymru allu byw eu bywydau drwy gyfrwng yr iaith Gymraeg os ydyn nhw'n dymuno gwneud hynny.

Pan ofynnir a/neu'n briodol, rydym yn anelu at gynhyrchu ein holl gymwysterau a deunyddiau marchnata a ddefnyddir yng Nghymru, yn yr iaith Saesneg a'r Gymraeg fel ei gilydd er mwyn eu gwneud nhw yn hygyrch i bawb. Bydd hyn yn cael ei wneud ar sail blaenoriaeth, gan ddibynnu ar anghenion a gofynion y cwsmer. Rydym yn sefydliad sy'n cefnogi ac yn annog hygyrchedd at ein holl raglenni a'n gwasanaethau, ac mae hyn yn cynnwys darparu gwasanaeth cyson i'n cynulleidfaoedd sy'n siarad Cymraeg yn eu dewis iaith.

Rydym yn croesawu gohebiaeth drwy'r iaith Saesneg a'r Gymraeg fel ei gilydd ac rydym yn anelu at ddarparu safon gyfartal o wasanaeth yn y ddwy iaith. Bydd hyn yn cael ei hwyluso drwy ein prif swyddfa yng Nghaerdydd yn NOCN Cymru, Swyddfa NOCN 25, Tŷ Brunel, 2 Heol Fitzalan, Caerdydd, Cymru, CF24 0HA. Lle y bo angen, bydd y staff yn swyddfa Caerdydd yn cofnodi'r cais a dod o hyd i siaradwr Cymraeg i ddarparu'r gefnogaeth berthnasol ar gyfer unrhyw geisiadau a wneir yn Gymraeg ar gyfer deunyddiau a dogfennau eraill.

Gwelwn y polisi hwn yn ffurfio rhan o ymrwymiad cynyddol a blaengar er mwyn hyrwyddo Cymru ddwyieithog.

2. Pwrpas

Mae ein polisi yn ceisio:

- cynnig gwasanaeth cyfartal i siaradwyr Cymraeg a Saesneg
- deall a chydabod natur ddwyieithog Cymru
- rhoi mynediad ehangach i'n gweithgareddau
- codi ein proffil Cymraeg a chydabod perchnogaeth gan siaradwyr Cymraeg a di-Gymraeg fel ei gilydd
- cryfhau ein hapêl yng Nghymru ac oddi allan i Gymru
- cryfhau ein gallu i gwrdd â gofynion Cymwysterau Cymru, cyllidwyr a phartneriaid eraill
- sicrhau cydymffurfiaeth â manylebau ieithyddol a diwylliannol mewn deddfwriaeth a chanllawiau ymarfer gorau fel y'u cymeradwyir gan Gomisiynydd yr Iaith Gymraeg

Ein hagwedd tuag at Gyfathrebu Allanol

3. Hunaniaeth Gorfforaethol

Bydd NOCN Group, pan mae'n cael ei ddefnyddio i ddynodi ein henw, yn cael ei ddefnyddio bob amser yn Saesneg yn unig.

Gyda'r un eithriad hwn, bydd delwedd gyhoeddus a hunaniaeth gorfforaethol NOCN yn hollol ddwyieithog. Mae hyn yn cynnwys defnyddio is-benawdau, papurau pennawd, cardiau busnes, slipiau cyfarch a deunyddiau ysgrifennu eraill, llofnodion e-bost, arwyddion, anfonebau a phob dogfennaeth fusnes arall.

4. Arwyddion ac Arwyddbyst

Bydd pob arwydd mewnol, allanol ac electronig (gan gynnwys arwyddion dros dro sy'n cael eu harddangos am fwy na 3 diwrnod gwaith) yn ddwyieithog.

Bydd dyluniad yr holl arwyddion yn ystyried canllawiau ynglŷn â dyluniad dwyieithog sy'n cael ei gyhoeddi gan Gomisiynydd yr Iaith Gymraeg, a bydd yn gyfartal yn nhermau fformat, maint, ansawdd, eglurder ac amlygrwydd.

5. Llenyddiaeth Gorfforaethol a Marchnata

Bydd pob cyhoeddiad argraffedig yn hollol ddwyieithog os yw'n cael ei fwriadu ar gyfer cyfathrebu allanol cyffredinol. Bydd unrhyw lyfrynnau neu wybodaeth arall, fel yr Adroddiad Blyneddol, yn cael eu cynhyrchu yn Gymraeg os gofynnir amdany'n nhw. Rydym yn anelu at sicrhau bod mwyafrif ein llenyddiaeth farchnata sy'n cael ei defnyddio yng Nghymru yn hollol ddwyieithog.

Bydd pob arddangosiad, stonidn wybodaeth gyhoeddus ac arddangosfa allanol yn trin y ddwy iaith ar sail gyfartal, ac eithrio lle mae trefnwyr y digwyddiad yn nodi bod yn rhaid i un o'r ddwy iaith fod y fwyaf amlwg.

Byddwn yn cipio gwybodaeth ynglŷn â dewis iaith ein cwsmeriaid lle bynnag y bo'n bosibl a byddwn yn defnyddio'r data hwn i gyfathrebu drwy eu dewis dull ac iaith.

6. Arolygon, Holiaduron a Grwpiau Ffocws

Bydd pob arolwg a holiadur sy'n cael eu cynhyrchu gan NOCN ar gyfer eu defnyddio yng Nghymru yn ddwyieithog.

Bydd o leiaf un grŵp mewn unrhyw raglen ymchwil ansoddol yn cael ei gymedroli drwy gyfrwng yr iaith Gymraeg.

7. Gohebiaeth ysgrifenedig

Mae Grŵp NOCN yn croesawu gohebiaeth ysgrifenedig yn y Gymraeg a'r Saesneg, a lle y bo'n bosibl, byddwn yn ateb yn iaith wreiddiol yr ohebiaeth.

8. Recriwtio

Bydd pob hysbyseb recriwtio allanol ar gyfer swyddi yn ein swyddfa yng Nghymru yn ddwyieithog ac eithrio ar gyfer swyddi lle mae Cymraeg yn ofyniad hanfodol. Bydd y rhain yn cael eu hysbysebu yn yr iaith Gymraeg, gyda chrynodeb yn yr iaith Saesneg.

Byddwn yn nodi'r swyddi lle mae'r gallu i siarad Cymraeg yn hanfodol a'r swyddi hynny lle mae'r Gymraeg yn ddymunol, er mwyn nodi'r lefel o fedrusrwydd a ddisgwylir ym mhob achos ac er mwyn llunio swydd-ddisgrifiadau a manylebau'r gweithwyr fel y bo'n briodol.

Bydd rheolwyr sy'n gyfrifol am recriwtio staff yn asesu ein hanghenion ar gyfer staff sy'n siarad Cymraeg wrth wneud penodiadau a byddan nhw'n cadw'r agwedd hon o recriwtio o dan adolygiad cyson. Pan rydym angen siaradwr Cymraeg, bydd rhan o'r cyfweiliad yn cael ei gynnal trwy'r Gymraeg er mwyn sicrhau medrusrwydd iaith.

Ein hagwedd tuag at Gyfathrebiadau Mewnol

9. Dogfennau, contractau a chyfathrebiadau eraill

Dylai pob dogfen, contract a chyfathrebiad arall i gyd yn cael eu cynhyrchu yn Gymraeg a/neu Saesneg, fel y gwelwn orau, os nad ydyn nhw yn cael eu cyfeirio at unigolyn a bod yr unigolyn hwnnw wedi mynegi bod yn well ganddyn nhw un iaith na'r llall.

10. Cyfarfodydd Bwrdd yr Ymddiriedolwyr

Bydd agendâu a chofnodion cyfarfodydd llawn Bwrdd yr Ymddiriedolwyr yn cael eu cynhyrchu yn Saesneg os na ofynnir amdany'n nhw fel arall.

11. Staff sy'n siarad Cymraeg

Ni fyddwn yn disgwyl i staff sy'n siarad Cymraeg weithredu fel cyfieithwyr ar gyfer cyfathrebiadau ysgrifenedig neu lafar os nad yw'n rhan o'u swydd-ddisgrifiad a'u bod yn meddu ar y sgiliau angenrheidiol i'w galluogi nhw i gyflawni'r gwasanaeth hwn at safon uchel.

12. Datblygu staff

Rydym yn annog ein staff sy'n wynebu'r cyhoedd ddysgu Cymraeg neu fynychu cyrsiau gloywi drwy gynnig cymorth ariannol ar gyfer gwersi Cymraeg fel rhan o'u hamser gwaith, pan fo cyllid yn caniatáu.

13. Hysbysu staff

Mae'r polisi hwn yn rhan o'n polisiau a'n gweithdrefnau ac mae'n cael ei gyfathrebu i'r holl staff drwy'r llawlyfr staff, a dylai fod ar gael o bosibl i'r holl staff fel rhan o'u pecyn cais am waith os ydyn nhw am fod yn gweithio yng Nghymru.

14. Adolygu polisi

Bydd y polisi hwn a'i weithrediad yn cael ei adolygu gan yr UDA yn flynyddol a bydd gwelliannau yn cael eu gwneud lle y bo'n bosibl.

15. Cwynion ac awgrymiadau ar gyfer gwelliannau

Dylid anfon cwynion sy'n gysylltiedig â'r polisi hwn, neu awgrymiadau ar gyfer gwella at: Rheolwr-Gyfarwyddwr y Grŵp.

16. Cydymffurfiaeth Weithredol

Cyfrifoldeb y Tîm Sicrwydd a'r Swyddog Rheoleiddio yw'r polisi.